Panel Dysgu Anffurfiol y gogledd ddwyrain.
10.00 dydd Iau, Medi 15fed
Tŷ Pendref, Yr Wyddgrug

1	**Croeso ac Ymddiheuriadau** **Croesawodd Siwan bawb i'r cyfarfod.** **Presennol** Sïon Aled (Pwyllgor Y Dysgwyr); Pam Evans-Hughes (CCIO); Gwawr Murphy (Menter Iaith Maelor); Eirian Conlon (Prifysgol Bangor); Liz Williams (Coleg Glannau Dyfrdwy); Siwan Hywel (Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru); Geralllt Lyall (Menter Iaith Sir Ddinbych); Meinir T Jones (Coleg Harlech) **Ymddiheuriadau** Helen (Coleg Iâl); Frances Jones (Popeth Cymraeg); David Jones (Prifysgol Bangor);
2	**Cywirdeb cofnodion y cyfarfod diwethaf** **2.2:** Nid yw C³ yn cynnal digwyddiadau yn Wrecsam **2.7:** Ni fu'r pwyllgorau apêl lleol yn Wrecsam yn cynnal digwyddiadau perthnasol i ddysgwyr. Nododd Sion Aled fod hyn yn bwynt pwysig i'w basio 'mlaen i'r pwyllgor dysgwyr sydd yn rhan o Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn nesaf. **2.12:** Yn anffodus, ni fu Menter Iaith Sir y Fflint yn llwyddiannus yn rhan cyntaf o gyflwyno cais y prosiect traws Sirol. Mae nhw rŵan yn y broses o ail strwythuro'r cais a'i gyflwyno erbyn diwedd y mis.
3	**Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro, 2011** Adroddiad y Cadeirydd.doc **3.1:** Uchod gweler adroddiad Cadeirydd Pwyllgor y Dysgwyr, Sion Aled. **3.2:** Noder fod pob dim wedi mynd yn llwyddiannus iawn, yn cynnwys noson Dysgwr Y Flwyddyn **3.3**: Nododd Siwan fod nifer yr ymholiadau gawson nhw ym Maes D yn uchel iawn, gan obeithio y bydd niferoedd ar y cyrsiau yn codi. Cynhaliwyd ymgyrch yn Wrecsam dros yr Haf hefyd er mwyn ategu at yr ymwybyddiaeth. **3.4:** Cynhaliwyd y pwyllgor cloriannu ar Fedi 5ed, ac mae'r pwyllgor wedi penderfynu cario 'mlaen i gyfarfod ac i fod yn bwyllgor llywio i weithgareddau anffurfiol i ddysgwyr yn ardal Wrecsam.
4	**Diweddariad partneriaid- digwyddiadau i ddod, ac adrodd yn ôl.** **Gwawr Murphy (Menter Iaith Maelor)** 4.1 Mae Gwawr wedi dechrau ar ei swydd gyda Menter Iaith Maelor am 2 ddiwrnod yr wythnos. Mae'r gwaith yn golygu trefnu gweithgareddau i deuluoedd a sefydlu is-bwyllgor adloniant. 4.2 Mae Sian Edwards yn gweithio i'r Fenter hefyd, fel Swyddog Dwyieithrwydd mewn Busnes. **Eirian Conlon (C³)** 4.3 Un o amcanion Eirian, fel trefnydd y Clwb, eleni yw codi mwy o ymwybyddiaeth a sylw i C³ 4.4 Marchnata: Bydd y manylon yn cael ei roi ar www.learncymraeg.org ac yn y newyddlen sydd yn mynd allan i ddysgwyr o'r Ganolfan. Bydd C³ yn cario 'mlaen i farchnata trwy e-byst/ yn y dosbarthiadau ac ym Mhapur Bro Fama. 4.5 Bydd Eirian hefyd yn mynd ati i geisio annog dysgwyr uwch sydd yn mynd i Glwb CD i ddod i C³. 4.6 Mae rhaglen wedi ei chreu ar gyfer 2011/2012 yn barod, sy'n cynnwys treialu digwyddiadau newydd (ee gemau tafarn), trefnu'r digwyddiadau arferol yn ogystal â mynd i ddigwyddiadau sydd eisoes yn digwydd yn yr ardal. 4.7. Nododd Eirian fod nifer o ddysgwyr wedi cael budd o'r ymweliad i'r Eisteddfod, yn enwedig wrth gymharu â'u ymweliad i Eisteddfod Wyddgrug yn 2007 a gweld cymaint oedd eu Cymraeg wedi gwella, a chymaint mwy yr oedden nhw yn ei ddeall. **Geralllt Lyall (Menter Iaith Dinbych)** 4.8: Mae Lleuwen Steffan yn Clwb Rygbi Rhuthun ar Hydref 21ain 4.9: Mae cynrychiolydd o'r Fenter yn eistedd ar bwyllgor Dysgwyr Eisteddfod Dinbych 2013. Nodwyd fod y cyfarfod nesaf

	yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn, Hydref 1af am 10 o'r gloch yn Ysgol Glan Clwyd. **Rebecca Davies (Menter Iath Sir Y Fflint)** 4.10: Bydd y Prosiect Iaith a Threftadaeth yn dod i ben ar ddiwedd mis Medi. Nododd Rebecca y bydd hi'n dal i weithio i'r Fenter ar ol hynny ar brosiectau amrywiol. 4.11: Bydd sesiwn ymgynghori yn cael ei gynnal heno yn y Clwb Rygbi yn Wyddgrug er mwyn ymgynghori gyda'r gymuned a darganfod be hoffen nhw ei weld yn digwydd yn lleol i ddatblygu'r Gymraeg. 4.12: Mae'r Fenter yn cynnal noson gyda Gwibdaith Hen Fran i deuluoedd ar 19/9/11 am 6 yr hwyr. 4.13: Gofynnodd Rebecca i bawb oedd yn bresennol i anfon unrhyw ddigwyddiadau sydd yn cael ei cynnal yn sir y Fflint ac unrhyw newyddion ati hi os gwelwch yn dda. Bydd yn mynd i'w newyddlen tymhorol. **Meinir T Jones (Coleg Harlech)** 4.14: Nodod Meinir fod y 'yert' yn yr Eisteddfod wedi bod yn llwyddiannus iawn, yn enwedig gan ei fod drws nesa' i MaesD 4.15: Mae'r rhaglen anffurfiol am y flwyddyn academaidd nesaf wedi ei phennu. Bydd Siwan yna nfon copi at bawb. 4.16. Gofynnodd Meinir yn garedig i bob tiwtor drefnydd i gasglu enwau ar gyfer gweithgareddau Coleg Harlech a rhoi gwybod iddi wythnos ymlaen llaw. **Liz (Clwb CD)** 4.17: Rhannwyd rhaglen Clwb CD am 2011-2012 allan yn ystod y cyfarfod. Gofynnodd Eirian am 200 copi ogydd. 4.18: Nododd Liz fod dysgwyr ar lefel Wlpan yn dod i Glwb CD yn hytrach na'u hannog i fynd i Glwb C³ i ymarfer eu Cymraeg gyda dysgwyr ar lefel uwch a Chymry Cymraeg. Bydd Eirian yn ceisio'u hannog i ddod i C³ 4.19: Nodwyd fod angen codi mwy o ymwybyddiaeth am y clwb gyda dechreuwyr pur, a'u hannog i fynychu. C**LWB DAW (Dechreuwyr Ardal Wrecsam)- Pam Evans-Hughes** 4.20: : Rhannwyd rhaglen Clwb DAW am 2011-2012 allan yn ystod y cyfarfod. 4.21: Nododd Pam fod Cor Clwb DAW wedi cael llwyddiant yn yr Eisteddfod ac yn cael eu gwahodd i ganu mewn cyngherddau. Byddent hefyd yn canu yn y Gynhadledd Cymraeg i Oedolion yn Y Ramada ar Hyddref 22ain. 4.22 Bydd y Cor yn cael ei sefydlu eto ym mis Ionawr ar gyfer Eisteddfod y Dysgwyr 2012.
5	**Eisteddfod y Dysgwyr 2011 a 2012** GwerthusoEd Dwyrain2011.docx 5.1: Mae'r ddogfen uchod yn gwerthuso Eisteddfod yt Dysgwyr 2012, yn ogystal â rhestr wirio at Eisteddfod 2012 5.2: Lleoliad Eisteddfod Dysgwyr y Dwyrain wedi ei gadarnhau. Sef nos Wener Mawrth 23ain, yng Ngwesty Tŷ Oriel, Llanelwy. 5.3 Penderfynwyd trefnu cyfarfod arall cyn y Nadolig er mwyn trafod rhaglen yr Eisteddfod a'i threfniadaeth.
6	**Marchnata** 6.1 Gofynnodd Siwan i bawb anfon unrhyw wybodaeth/posteri am ddigwyddiadau yn y deu fis nesaf at ti os gwelwch yn dda erbyn 30/9/11 er mwyn eu hychwanegu yn y newyddlen. 6.2 Nododd Rebecca fod gan y Fenter focs cyflawn o nwyddau i fynd efo'u stondin i amrywiol lefydd. Os oes gan unrhyw un bethau i'w ychwanegu i'r bocs, byddai'n ddiolchgar iawn.
7	**Materion i'w gweithredu** 7.1 Mae Eirian yn chwilio am arweinydd Zumba sydd yn siarad Cymraeg 7.2 Darganfuwyd bod Clwb CD a Clwb DAW yn cynnal taith gerdded wythnos o'i gilydd, dan arweiniad David Jones. Byddai'n syniad i ymuno'r ddau. Siwan i drafod efo Liz, Frances, David, Pam a Helen. 7.3: Siwan i anfon rhaglenni dysgu anffurfiol at bawb.
8	**Dyddiad y cyfarfod nesaf** Dydd Mawrth, Rhagfyr 5ed am 1 o'r gloch yng Ngwesty Tŷ Oriel, Llanelwy